HAWLIO EIN HEDDIW O'N DDOE YNG NGHYMRU

CANRIF O NEWID BYD I BLANT

Achub y Plant

Save the Children

Mae gan bob plentyn hawl i ddyfodol. Mae Achub y Plant yn gweithio yng Nghymru ac ar draws y byd i roi dechrau iach mewn bywyd i blant, a'r cyfle i ddysgu a bod yn ddiogel. Rydym yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i gael y pethau sydd eu hangen ar blant – bob dydd ac mewn argyfwng.

Cydnabyddiaeth

Ymchwiliwyd, ysgrifennwyd a golygwyd y cyhoeddiad hwn gan Eurgain Haf a Rhian Iolo Brewster ar gyfer Achub y Plant y DU. Rydym yn diolch i'n holl wirfoddolwyr, cefnogwyr, aelodau presennol a blaenorol o staff tîm Achub y Plant yng Nghymru am gymryd rhan mewn cyfweliadau a rhoi deunydd archif, lluniau a data i ni yn ystod o broses o ysgrifennu'r llyfryn hwn. Diolch yn arbennig i Clare Mulley, bywgraffydd ac awdur llwyddiannus 'The Woman Who Saved the Children,' am ei chyfraniad.

Cyhoeddwyd gan
Achub y Plant
3ydd llawr, Tŷ Phoenix
8 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd
CF11 9LJ

savethechildren.org.uk/wales

Cyhoeddwyd gyntaf 2019

© Cronfa Achub y Plant 2019

Mae Cronfa Achub y Plant yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (213890) a'r Alban (SC039570). Rhif Cwmni Cofrestredig 178159

Mae hawlfraint ar y cyhoeddiad hwn ond gellir ei atgynhyrchu trwy unrhyw ddull heb ffi na chaniatâd ymlaen llaw at ddibenion addysgu, ond ni ellir ei ailwerthu. Er mwyn ei gopïo neu mewn unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwr, ac efallai y codir ffi.

Llun ar y clawr: Achub y Plant

Mae'r delweddau a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn at ddibenion arddangos yn unig. Mae Achub y Plant yn gweithio gyda theuluoedd o bob cefndir, ac nid yw eu cynnwys yn adlewyrchu eu sefyllfa ariannol mewn unrhyw ffordd.

Cydosodwyd gan Infographics Ltd
Argraffwyd gan Infographics Ltd
Cyfieithwyd gan Adnod Cyf

Cynnwys

Yn ei geiriau ei hun…….dyfyniadau gan Eglantyne Jebb

Rhagair gan Louise Davies, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru

Pennod 1 - Eglantyne a Chymru 9

Pennod 2 - Ein hanes cynnar yng Nghymru 13

Pennod 3 - Sefydlu rhaglen Cymru 21

Pennod 4 - Llais ein gwirfoddolwyr 29

Pennod 5 - Cymru yn eu geiriau nhw 49

Darnau bach, darlun mawr - *cerdd i ddathlu'r canmlwyddiant gan Fardd Plant Cymru, Casia Wiliam* 57



Eglantyne Jebb yn ysgrifennu wrth ei desg

O'i genau….

"Mae dyletswydd ar ddynoliaeth i roi i blentyn y gorau y gall ei roi."

"Yr unig iaith ryngwladol yn y byd yw cri plentyn."

"Mae pob cenhedlaeth o blant yn rhoi'r posibilrwydd i'r ddynoliaeth ailadeiladu ei dinistr yn y byd."

"Rwy'n credu y dylem fynnu hawliau penodol ar gyfer y plant a llafurio dros eu cydnabod ar draws y byd."

Bu farw Eglantyne Jebb ym 1928, yn 52 oed, gan adael gweledigaeth bwerus o ddileu'r cylch tlodi oedd yn difetha bywydau cymaint o blant.

"Os ydym yn derbyn ein cynsail, bod yn rhaid i Gronfa Achub y Plant weithio i sicrhau ei thranc ei hun, mae'n rhaid iddi geisio diddymu, am byth ac i bawb, y tlodi sydd yn gwneud i blant ddioddef ac sydd yn rhwystro eu hil. Ni all fodloni ar achub plant rhag caledi bywyd - mae'n rhaid iddi ddiddymu'r caledi yma; na chredu ei fod yn ddigonol eu hachub rhag bygythiad uniongyrchol - mae'n rhaid iddi roi'r gallu iddynt achub eu hunain ac felly i achub y byd."

Mae'r llyfryn hwn yn ddiolch ac yn deyrnged gan dîm Achub y Plant yng Nghymru i bawb sydd wedi rhoi amser, arian, ymrwymiad ac i rai, ffyddlondeb, i'r plant y mae'r elusen yn eu gwasanaethu.

Rydym wedi ceisio dathlu llawer o gyflawniadau'r elusen yng Nghymru dros y 100 mlynedd trwy eiriau'r rheiny sydd wedi bod yn allweddol yn creu newid i blant. O'n sylfaenydd, Eglantyne, i Asha, disgybl Blwyddyn 9 o Ferthyr sydd wedi derbyn y genhadaeth o *'gydweithio er budd pob plentyn ar draws y byd'*.

Byddwch yn canfod pa mor gyfoethog yw hanes gwaith yr elusen yng Nghymru, pa mor hael y mae'r Cymry wedi bod gyda'u cymorth, ac yn anffodus, cymaint o blant sydd angen hyn o hyd yma.

Ein gobaith yw y byddwch, ar ôl darllen hwn, yn dod yn agosach atom a'n gwaith ac yn ymuno gyda ni i sefyll ochr yn ochr â phlant gan wneud beth bynnag sydd ei angen i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial.

Louise Davies
Pennaeth Achub y Plant, Cymru

Pennod 1
Eglantyne a Chymru

Dim Un Mynydd yn Ddigon Uchel: Sut cafodd Eglantyne Jebb, sylfaenydd Achub y Plant, ysbrydoliaeth ym mynyddoedd Cymru

gan Clare Mulley

'Rwy'n dweud wrthych, ni cheir gwaredigaeth yng nghanolfannau prysur, swnllyd gwareiddiad,' dywedodd fforiwr enwog yr Arctig a'r dyngarwr, Fridtjof Nansen, un tro wrth Eglantyne Jebb, sylfaenydd Achub y Plant. 'Fe'i ceir yn y mannau unig'.

Roedd Eglantyne wrth ei bodd yn 'y mannau unig', ar hyd ei hoes, o dirwedd wyllt Cymru i fynyddoedd y Swistir. Yno y canfu'r teimlad o bersbectif pan oedd digwyddiadau yn bygwth ei threchu, ac ysbrydoliaeth pan oedd fwyaf creadigol.

Eleni, mae'n gan mlynedd ers i Eglantyne a'i chwaer, Dorothy Buxton, lansio Achub y Plant, ond er bod yr elusen bellach yn cael ei gwerthfawrogi ar draws y byd am ei gwaith yn achub bywydau, mae enw Eglantyne a'r ysbrydoliaeth y tu ôl i'w chyflawniadau, yn angof mwy neu lai.

Cafodd Eglantyne, a anwyd yn Sir Amwythig ym 1876, ei magu mewn tŷ mawr yn Ellesmere, ond roedd ei theulu hefyd yn berchen ar ystadau cyfagos yng Nghymru. Roedd ei thad yn fargyfreithiwr, ac yn ŵr bonheddig, gwerinol, cydwybodol yn gymdeithasol, a ddysgodd ei blant, 'bod llawer yn ddisgwyliedig o'r rheiny sydd yn byw mewn tai moethus'. Gwrthododd godi rhenti ar ei ystadau yn ystod blynyddoedd gwael, ac yn aml byddai'n dychwelyd ar ôl casglu rhent yng Nghymru gyda helgig, neu farddoniaeth hyd yn oed, yn ei boced yn lle arian parod.

Gyda'i wraig a'u chwe phlentyn, treuliodd wyliau hwyliog yn ffermdy'r

teulu, Tydraw, yn yr hen Sir Ddinbych. Yma byddent yn mwynhau bywyd syml, rhamantus gyda dwy forwyn yn unig a 'dim pwdinau', er gwaethaf pantri'n llawn sgwarnogod, cwningod, ffesantod, ieir y mynydd a phetris. Yn gynnar iawn, roedd Eglantyne wrth ei bodd gyda thirwedd eang Cymru, a ysbrydolodd ei cherddi a'i straeon, a rhoi'r lle iddi feddwl gan fod hynny'n anodd yng nghwmni parhaus bron brawd a chwaer iau, Dorothy a'u brawd Gamul.

Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd Eglantyne yn byw yn Llundain. Roedd y teimlad cryf o gyfiawnder cymdeithasol yr oedd wedi ei etifeddu gan ei rhieni, a marwolaeth ei brawd annwyl, Gamul, o lid yr ysgyfaint pan yn blentyn, wedi ei hysbrydoli i ymrwymo i waith cymdeithasol. Roedd wedi dosbarthu cymorth yn y Balcanau ychydig cyn dechrau'r rhyfel ac ymgyrchu i ddod â'r gwarchae i Ewrop i ben ar ôl y gwrthdaro, pan oedd llawer o'r mwyaf agored i niwed yn y gwledydd a orchfygwyd yn newynu yn yr heddwch.

Pan gafodd Eglantyne ei harestio ar Sgwâr Trafalgar am ddosbarthu taflenni yn beirniadu polisi'r llywodraeth, ac yn cynnwys lluniau o blant yn newynu yn Awstria, mynnodd amddiffyn ei hun yn y llys. Gan ganolbwyntio ar yr achos moesol, rhoddodd ddigon o ddeunydd i lenwi colofnau'r gohebwyr.

Gan ddatblygu'r cyhoeddusrwydd hwn, lansiodd Eglantyne a'i chwaer, Dorothy, Gronfa Achub y Plant yn Neuadd Frenhinol Albert, Llundain ychydig wythnosau'n ddiweddarach. Un o'r llefarwyr a wahoddwyd i rannu eu llwyfan oedd arweinydd y glowyr, Robert Smillie, a ddaeth â chefnogaeth cymunedau glofaol Cymru i'r plant oedd yn newynu yn Fienna gydag ef. Ym 1926 byddai dinas Fienna yn cofio eu dyled ac yn codi arian i fwydo plant glowyr Cymru yn ystod y streic gyffredinol. Mae'r delfryd hwn, o gymunedau a gwledydd yn rhoi i'w gilydd, yn dal yn sylfaen i gymuned ryngwladol Achub y Plant, sydd yn dal i gefnogi rhaglenni yn y DU yn ogystal â thramor.

Pan ddatblygodd Achub y Plant yn ffederasiwn rhyngwladol, symudodd Eglantyne i Genefa yn y Swistir, lle'r oedd Cynghrair Rhyngwladol y Menywod eisoes wedi ei leoli. Yma unwaith eto, gallai ddringo'r mynyddoedd i glirio ei meddwl, fel y gwnaeth yn blentyn yng Nghymru. Un dydd Sul braf yn yr haf, aeth allan yn ei sgert hir a'i hesgidiau uchel tynn a dringodd i gopa Mont Salève. Gan droedio'r pridd crimp, ei gwallt yn chwifio yn yr awel, edrychodd Eglantyne i lawr dros Lyn Genefa, bryd hynny'n llawn cychod yn cludo deunyddiau adeiladu ar gyfer adeilad newydd Cynghrair y Cenhedloedd ar y lan bellaf. Yn y fan hon y creodd Eglantyne y cysyniad chwyldroadol y dylai pob plentyn, ym mhob man, gael yr un hawliau dynol cyffredinol.

Bellach, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989), a esblygodd yn uniongyrchol o ddatganiad arloesol Eglantyne yn 1924, yw'r offeryn hawliau dynol mwyaf derbyniol ar draws y byd. Ynghyd â mudiad

Achub y Plant, dyma un o'r offerynnau mwyaf hanfodol a ddefnyddir gan y gymuned ryngwladol i hybu, cefnogi ac ar gyfer lles plant ar draws y byd.

Dim ond pum deg dau oedd Eglantyne Jebb pan fu farw ym 1928. Fe'i claddwyd yn Genefa ac mae'n hyfryd bod Mont Salève i'w weld o'i bedd. Ond roedd rhan o Eglantyne bob amser wedi ei wreiddio yn nhirwedd ei phlentyndod, yn Sir Amwythig ac yng Nghymru. Mae ei thad a'i brawd, eu dau yn rymoedd arloesol yn eu bywyd, wedi eu claddu ym mynwent Eglwys Rhiwlas ger Tydraw.

Clare Mulley

Clare Mulley yw awdur arobryn ***The Woman Who Saved the Children, A Biography of Eglantyne Jebb, Founder of Save the Children*** *(Cyhoeddiadau Oneworld, 2019) £10.99 a rhoddir yr holl freindaliadau i Achub y Plant.*



Clawr y llyfr: The Woman Who Saved the Children, A Biography of Eglantyne Jebb, Founder of Save the Children (Cyhoeddiadau Oneworld, 2019)

Pennod 2
Ein hanes cynnar yng Nghymru

Roedd ein cyd-sylfaenydd, Eglantyne Jebb, yn credu y dylai pob gwlad ofalu am ei phlant ei hun, yn ogystal â helpu plant dramor. Ers y 1920au mae rôl wedi bod bob amser i Achub y Plant yn cefnogi plant yn y DU i gael y dechrau gorau mewn bywyd a thyfu i fyny i gyflawni eu potensial mewn bywyd.

Mae ein hanes cynnar yng Nghymru yn dangos sut y gweithiodd Achub y Plant ac awdurdodau lleol, rhieni, y sector addysgol, gwirfoddolwyr a gwleidyddion mewn partneriaeth i gyflwyno gwasanaeth er budd plant. Mae hyn yn parhau yn sylfaen i'n gwaith yng Nghymru hyd heddiw.

Plant yn ystod y Dirwasgiad

Yn y 1930au yn ystod y Dirwasgiad Mawr - cyfnod yn dilyn y rhyfel byd cyntaf ac yn arwain at yr ail pan oedd tlodi byd-eang, diweithdra mawr ac anniddigrwydd ar draws y byd - darparodd Achub y Plant brydau bwyd a dillad am ddim i blant yn yr ardaloedd oedd wedi eu heffeithio waethaf.

Hyd yn oed bryd hynny, roedd y blynyddoedd cynnar yn cael eu hystyried yn adeg dyngedfennol a chredwyd y gallai cyfnodau datblygiadol cynharaf plentyn ddylanwadu ar eu dyfodol a'u cyfraniad at gymdeithas. Yn ystod y 1930au, sefydlwyd Pwyllgor Meithrinfa Awyr Agored Achub y Plant i gyflwyno ysgolion meithrin i gymunedau fel modelau ymyrraeth arloesol. Daeth yr ysgolion meithrin a ddarparwyd gan yr elusen yn ystod y 1930au yn fodelau cynllunio a dylunio gan ddarparu lloches syml, meysydd chwarae, awyr iach a gorffwys. Ar un adeg, roedd Achub y Plant yn darparu deg y cant o gyfleusterau meithrin y DU.

Meithrinfeydd awyr agored brys

O dan fantell Sefydliad y Crynwyr, agorodd Achub y Plant un o ysgolion meithrin awyr agored cyntaf y DU yn Nowlais ym Merthyr ym 1933 ac un arall ym Mrynmawr ym 1934 i helpu rhai o'r teuluoedd tlotaf er mwyn i'r rhieni allu cael gwaith a galluogi'r plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd.

Rhoddwyd pwyslais ar werth gweithgareddau awyr agored ac roedd y meithrinfeydd yn debyg iawn i gabanau pren gyda dodrefn, cyfleusterau celf a chrefft, pyllau tywod, ardaloedd chwarae a phwll nofio wedi eu creu gan y Crynwyr a oedd hefyd wedi talu amdanynt.

Mynnodd Achub y Plant fod y rheiny oedd yn cael eu cyflogi yn y meithrinfeydd, fel metronau neu staff addysgu, yn weithwyr proffesiynol cymwys, wedi eu hyfforddi naill ai yn Sefydliad Froebal neu yng Ngholeg Hyfforddi McMillan yn Llundain.

Llaeth am Ddim mewn ysgolion

Ar adeg y streic gyffredinol ym 1926, dechreuodd Achub y Plant ddarparu llaeth am ddim mewn ysgolion trwy'r 'Cynllun Llaeth mewn Ysgolion' a gynhaliwyd gyntaf yn Sir Fynwy. Chwe blynedd yn ddiweddarach ym 1933, pan oedd y Dirwasgiad Mawr ar ei waethaf, dynododd adroddiad gan Achub y Plant, 'Diweithdra a'r Plentyn: Ymchwiliad' bod diweithdra ar raddfa fawr yn effeithio ar faeth plant gan alw ar awdurdodau lleol i ddarparu prydau ysgol ar gyfer y plant oedd fwyaf mewn angen. Fe wnaethom ymgyrchu dros hawl plant i faeth digonol nes bod Deddf Addysg 1944 yn darparu prydau ysgol a llaeth trwy gydol y DU. Heddiw yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod plant o deuluoedd incwm isel yn dal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn ariannu llaeth am ddim i bob plentyn hyd at saith oed.

Ar ôl y rhyfel: Clybiau iau

Yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, y prif weithgaredd i Achub y Plant oedd darparu clybiau iau ar gyfer plant oed ysgol. Cawsant eu creu i roi man diogel i blant chwarae, i ffwrdd o'r bomiau a'r peryglon ar y strydoedd. Erbyn 1947, roedd chwe chlwb yn Llundain, un yn Plymouth, un yng Nghaerdydd ac un yn Noc y Barri. Mae cymorth grant gan Gyngor Sir Morgannwg i ariannu'r clybiau hyn yn dangos cymaint oedd yr awdurdodau a'r cymunedau yr oeddent yn eu gwasanaethu'n eu gwerthfawrogi.

Yn y clybiau hyn cafodd y plant wersi drama, gwnïo, gwaith coed, paentio,

crochenwaith a darllen ac roedd gan y rhan fwyaf o'r clybiau lyfrgelloedd bach. Roeddent hefyd yn mwynhau gweithgareddau awyr agored fel criced, nofio, pêl-droed ac ymweld â'r sinema, y theatr a'r syrcas. Roedd gan glwb Doc y Barri, a alwyd yn 'The Domino Club' ardd, oedd yn galluogi plant i dyfu planhigion a chadw anifeiliaid anwes. Fe wnaeth rhai aelodau o glwb Doc y Barri ymweld â phlant yng Ngwlad Belg ym 1948 hefyd fel mynegiant o gyfeillgarwch. Roedd y Domino Club yn Noc y Barri yn weithgar iawn hefyd yn trefnu cyngherddau ac adloniant a ddaeth yn adnabyddus iawn yn yr ardal.

Noddi Plentyn

Mor gynnar â 1936, ceisiodd Achub y Plant ddarparu grant ariannol i gynorthwyo datblygiad plentyn gan ganolbwyntio'n bennaf ar gymunedau tlawd De Cymru a Gogledd Lloegr. Roedd y plant yn cael eu dewis gan weithwyr cymdeithasol cymwys a byddai'r grantiau'n cael eu gweinyddu trwyddynt hwy; syniad sydd yn dal i gael ei fabwysiadu gan raglen waith Achub y Plant hyd heddiw. Weithiau byddai plant yn amddifad yng ngofal neiniau a theidiau neu yn blant gweddwon neu pan nad oedd eu tadau'n gallu gweithio. Helpodd y grantiau i roi dillad, cyfleustodau cartref, llyfrau, teganau ac anrhegion i'r teuluoedd ar ben-blwyddi a'r Nadolig. Helpodd yr elusen y teuluoedd i gael grantiau statudol hefyd fel Lwfans Teulu'r wladwriaeth.

Codwyd arian ar ôl y rhyfel i ariannu timau cymorth a anfonwyd i'r Iseldiroedd, yr Almaen a Groeg ac ym 1945 ceir cyfeiriad yn archif Urdd Gobaith Cymru at y ffordd yr ymgyrchodd aelodau'r Urdd gyda Chronfa Achub y Plant a chodi £3,924 mewn 3 mis tuag at blant digartref yn Ewrop. Yn ogystal, anfonwyd 6 cherbyd mawr o fwyd, dillad a chyflenwadau meddygol i Wlad Pwyl, Gwlag Belg, Hwngari ac Iwgoslafia.

Ym Mai 1948, dechreuodd yr elusen fenter codi arian newydd, apêl Genedlaethol Ceiniog yr Wythnos lle gofynnwyd i gyflogeion diwydiannol yn bennaf i gyfrannu ceiniog yr wythnos wedi ei thynnu o'u cyflogau. Roedd cefnogaeth yr Undebau yn rhan fawr o lwyddiant yr apêl hon hefyd. Ar ôl mis yn unig, roedd dros 1,000 o ffatrïoedd wedi ymuno. O fewn 4 mis, roedd 1,500 o sefydliadau'n cymryd rhan, yn cynnwys llawer o gymdeithasau glowyr ac Undebau yn Ne Cymru, a gweithwyr yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Y canghennau codi arian cyntaf yng Nghymru

Yn ystod diwedd y 1940au a dechrau'r 1950au, roedd canghennau yn dechrau ffurfio i godi arian ac ymwybyddiaeth o waith yr elusen. Sefydlwyd canghennau Caerdydd, Port Talbot ac Aberdâr yr adeg hon. Sefydlwyd cangen Aberdâr yng

Nghymru ar yr 21ain o Ionawr, 1954 o dan Gadeiryddiaeth y Parch. Clifford Evans. Yn ystod y cyfarfod cafwyd anerchiad gan Col. Idris Evans, Trefnydd y Gronfa yng Nghymru a ddywedodd yn y cyfarfod ei fod yn apelio at ardal Aberdâr am "ei fod yn teimlo bod ganddi'r safbwynt cywir o ran sefydliadau elusennol." Roedd yn llygad ei le wrth i'r gangen dyfu o nerth i nerth ac mae'n dal yn weithgar hyd heddiw. Cafodd un o aelodau cyntaf y gangen, y diweddar Mrs Valeda May Rees, Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) am ei gwasanaethau yn gwirfoddoli am bron saith deg o flynyddoedd yn casglu ar y strydoedd, o amgylch yr ystadau a sefyll o flaen ffatrïoedd a'r sinema a'r siopau lleol, boed law neu hindda.

Blodeuodd canghennau ar hyd a lled Cymru a rhwng y 1960au hyd at y degawdau diwethaf, roedd 22 o ganghennau gweithredol yng Nghymru yn codi arian hanfodol ac ymwybyddiaeth o anghenion plant ym mhob cwr o'r byd, yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol lleol ar lawr gwlad.

Cysylltiadau brenhinol

Roedd y teulu Brenhinol yn aml yn mynegi eu cymeradwyaeth o waith Achub y Plant gydag Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Elizabeth yn cyfrannu arian a gasglwyd mewn arddangosfeydd o'i ffrog briodas i'r elusen. Yn ddiweddarach, ym mis Tachwedd 1952, ar ôl dod yn Frenhines, rhoddodd nawddogaeth i'r Gronfa. Ym 1970, daeth ei merch, EHB y Dywysoges Frenhinol, yn Llywydd Achub y Plant ac yn nes ymlaen, daeth yn Noddwr yn 2016.

Yr Anrhydeddus Fonesig Shân Legge-Bourke

Penodwyd yr Anrhydeddus Fonesig Shân Legge-Bourke DCVO yn Foneddiges Breswyl i EHB y Dywysoges Anne ym 1978 ac am y pymtheg mlynedd nesaf aeth gyda'r Dywysoges Frenhinol ar draws y byd yn ymweld â phrosiectau Achub y Plant. Ar bob taith, dewisodd het y byddai, ar ôl dychwelyd i'w chartref ar Ystâd Glanusk yng Nghrucywel, yn ei defnyddio fel rhan o'i Sgwrs Hetiau ('Hat Chat') enwog i godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer yr elusen. Gwasanaethodd yr Anrhydeddus Fonesig Shân Legge-Bourke, a weinyddodd hefyd fel Arglwydd Raglaw blaenorol Powys, am fwy nag ugain mlynedd fel Cadeirydd pwyllgor Menywod yng Nghymru a hi yw Llywydd Achub y Plant yng Nghymru a Noddwr yr Elusen Menywod yng Nghymru o hyd.

Ym 1980, ychydig flynyddoedd ar ôl i mi ddechrau fy swydd, gofynnwyd i'r Dywysoges a fyddai'n fodlon ymweld â

phrosiect Achub y Plant yn Affrica, ac o hynny ymlaen, aeth allan ar ymweliad, ddwywaith y flwyddyn weithiau, ym mis Hydref a Chwefror. Am y 15 mlynedd nesaf, roeddwn yn ddigon lwcus i fynd gyda hi i rai o'r mannau mwyaf anghyffredin y gallech freuddwydio ymweld â nhw, allan yn y jwngl, neu'r anialwch neu ar ben mynydd lle byddech yn gweld caledi a thlodi difrifol.

Mae wedi bod yn anhygoel ac wedi rhoi mewnwelediad arbennig i mi o'r hyn y mae'r elusen yn ei wneud mor dda, sef helpu plant ar draws y byd ac yma yng Nghymru. Roedd llawer o brosiectau'n digwydd yma yn ystod y 1970au a'r 1980au, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rhedeg gan ein gwirfoddolwyr sydd mor hanfodol i'n gwaith. Fel y dywed y Dywysoges Frenhinol bob amser, 'heb ein gwirfoddolwyr, ni fyddai Achub y Plant yn bodoli.'

Meithrinfa awyr agored fel yr un a ddechreuwyd yng nghymunedau glofaol de Cymru yn y 1930au. Llun: Achub y Plant

Plant o Ferthyr yn gwneud bara fel un o'r gweithgareddau a wnaed yn y meithrinfeydd brys. Llun: Achub y Plant

Achub y Plant oedd yn gyfrifol am roi llaeth am ddim mewn ysgolion am y tro cyntaf ym 1926. Llun: Achub y Plant

Shân Legge-Bourke yn gwisgo het a gasglodd yn Ouagadougou yng Nghyn-weriniaeth Volta Uchaf, Gorllewin Affrica ym 1984. Llun: Shân Legge-Bourke

MONTHLY
News Sheet
OF THE

Save the Children Fund

National Penny-a-Week Appeal

PATRON
HER MAJESTY THE QUEEN

12 UPPER BELGRAVE STREET,
LONDON, S.W.1 - Sloane 9171

November 1955 No. 74

THE NEWS IN PICTURES

Whilst not fully accepting the slogan of "one picture is worth a million words" we believe that pictures are an attractive form of presenting news. Hence the decision to include pictures in our Monthly News Sheet. This month's photo is of our President, Countess Mountbatten, joining children at Hill House in a see-saw on her recent visit to this SCF Holiday Home (referred to in the October News Sheet).

The next group of children to spend a period of seven or eight weeks at this House will come from Cardiff and will be chosen by the Local Authority as being those most in need of the physical and mental stimulus that Hill House has provided for so many children already, both British and foreign.

FRIENDS AND NEIGHBOURS

One of the happiest features of the work of the Save the Children Fund is that of its close association with many other charitable and social service organisations who not only co-operate in our great common task but provide tangible and material help - as well as sympathy. Organisations such as Red Cross, St. John Ambulance Association, National Council of Social Service, United Nations Association. Not least is the substantial support of the Oxford Committee for Famine Relief whose work on behalf of distressed people of both adults and children in all countries is well known. During the past three months this active organisation has contributed to the SCF from its collection of clothing, 5½ tons for the children of Yugoslavia, 9½ tons for Greece, 8 tons Korea, 9½ tons Germany, 9½ tons Austria, 3½ tons Italy, ½ ton Jordan and ½ ton for Great Britain. All this in addition to cash donations amounting to £9,500 within a six-month period. The Manchester and Salford Famine Relief Committee, although not such a large organisation, has also contributed generously to the needs of distressed children through the S.C.F.

PLEASE DISPLAY ON YOUR NOTICE BOARD — OR PRINT IN YOUR JOURNAL

Ym 1955 plant o gymunedau difreintiedig yng Nghaerdydd yn ymweld â Hill House, enciliad gwledig yn Essex oedd yn cael ei redeg gan Achub y Plant gydag arian a godwyd gan y gronfa Genedlaethol Ceiniog yr Wythnos. Llun: Achub y Plant

Shân Legge-Bourke gydag EHB Y Dywysoges Anne ar ymweliad â Khartoum, prifddinas Y Swdan ym mis Rhagfyr 1985.
Llun: Fritz Curzon/Achub y Plant

Pennod 3
Sefydlu rhaglen Cymru

Sefydlwyd Rhaglen Achub y Plant yng Nghymru ym mis Mawrth 1988 i helpu plant a theuluoedd sydd yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig i greu newid yn eu bywydau a bod yn ymwybodol o'u hawliau sylfaenol. Arweiniodd ein gwaith, yn eirioli ac yn ymgyrchu dros y materion hyn, at newidiadau gwleidyddol pwysig a datblygiadau arloesol yng Nghymru, gan helpu i ddatblygu'r corff mantell, Plant yng Nghymru, a chreu swydd Comisiynydd Plant Cymru a'r Cynulliad Ieuenctid (Y Ddraig Ffynci).

Ers i Eglantyne Jebb ysgrifennu Datganiad Hawliau'r Plentyn ym 1924, a ysbrydolodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym 1989, mae hawliau plant wedi bod yn rhan sylfaenol o waith Achub y Plant yn y DU.

Yng Nghymru, fe wnaethom gadeirio Grŵp Monitro UNCRC gan ddod ag academyddion, ymarferwyr ac arbenigwyr cyfreithiol ynghyd ar draws Cymru i adrodd yn ôl i Bwyllgor y CU ar y ffordd y mae hawliau'r plentyn yn cael eu cynnal a'u hybu gan y Llywodraeth. Ynghyd â'r Grŵp hwn, helpodd ein hymgyrchu a'n heirioli i sicrhau deddfwriaeth oedd yn sicrhau bod hawliau plant yn dod yn rhan o'n cyfraith ddomestig ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Richard Powell

Mae Richard Powell o Lanaman yn Sir Gaerfyrddin wedi gweithio ar faterion plant ers dros ddeugain mlynedd. Ymunodd ag Achub y Plant ym 1998 fel Cyfarwyddwr Rhaglen Cymru cyn derbyn swydd fel Cyfarwyddwr Amddiffyn Plant Byd-eang yn 2006 gan deithio i bedwar ban byd i helpu plant mewn angen.

Pan gefais fy mhenodi ym mis Chwefror 1998, roedd y dirwedd wleidyddol yn newid yng Nghymru. Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar fin cael ei ffurfio yn dilyn y refferendwm ac roedd ffocws ein gwaith yn ymwneud â rhoi llais i blant a phobl ifanc ar y materion sy'n effeithio arnynt fwyaf.

Roedd gennym raglen wych o'r enw 'Grym Dweud' (Saying Power) a sefydlwyd yng ngogledd, gorllewin a de Cymru a sefydlwyd rhaglenni cymunedol hefyd mewn ardaloedd yn y cymoedd oedd â'r gyfradd uchaf o ddiweithdra ieuenctid. Roedd pobl ifanc yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hynysu, eu dadrymuso a'u gadael ar ôl. Nid oedd ganddynt unrhyw fynediad at wasanaethau ac roedd swyddi'n brin. Ond eto, roedd yn amlwg bod ganddynt y sgiliau a'r dyhead. Yr unig beth oedd ei angen arnynt oedd cyfle i ddatblygu eu syniadau a chreu newid, nid yn unig yn eu bywydau eu hunain ond yn wleidyddol gan mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnwys hawliau plant mewn cyfraith ddomestig.

Dysgodd ein gwaith yng Nghymru lawer o'n gwaith byd-eang ac i'r gwrthwyneb. Deilliodd prosiect ar gyfer plant dan 5 oed a gynhaliwyd yn rhai o gymunedau mwyaf gwledig ac ynysig Powys o gynllun tebyg ym Mhortiwgal. Ariannwyd bws i deithio o amgylch Powys yn benthyg teganau addysgiadol a llyfrau i deuluoedd. Teithiais lawer i Ddwyrain Ewrop hefyd, i Serbia a dysgu llawer o'u gwaith rhaglen nhw.

Ar fore Gŵyl San Steffan 2004, pan dorrodd y newyddion am y tswnami dinistriol yn Ne Asia, rwy'n cofio gwrando ar y cyhoeddiadau ar y radio a meddwl bod hwn yn drychineb aruthrol. Wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen a mwy o ddelweddau torcalonnus yn ymddangos ar y teledu, dechreuasom siarad fel teulu am gyfrannu arian i helpu'r bobl hyn. Erbyn yr ail ddiwrnod, roedd gennym gynlluniau i drefnu digwyddiad i godi arian yn fy mhentref genedigol, Glanaman. Ar y pumed diwrnod, roeddwn ar awyren i Sri Lanka gyda chriw camera i adrodd yn ôl ar yr ymateb

i'r tswnami. Fy mwriad oedd aros am ddeuddydd ac anfonais neges e-bost at fy nghydweithwyr yn swyddfa Achub y Plant Cymru i ddweud y byddwn yn ôl ddiwedd yr wythnos. Aeth bron chwe wythnos heibio cyn iddynt fy ngweld eto! Roeddwn yn teimlo nad oedd dewis gennyf. Ymatebodd Achub y Plant ar unwaith yn y gwledydd a effeithiwyd fwyaf ac roedd angen gwirioneddol am fwy o gymorth yn rhai o'r ardaloedd mwyaf pellennig.

Am yr ugain mlynedd nesaf, Achub y Plant oedd fy mywyd; aelod ychwanegol o'r teulu. Rwy'n teimlo'n freintiedig fy mod wedi cael cyfle i helpu plant i gael llais yma yng Nghymru ac ym mhedwar ban byd.

Gwaith gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr

Yn y 1980au, gweithiodd Achub y Plant gyda phlant a theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ar draws y DU i'w helpu i gael eu hawliau sylfaenol i addysg ac iechyd. Nid oedd gan lawer o deuluoedd sy'n deithwyr yng Nghymru safle swyddogol ac yn cael eu gorfodi i fyw ar ochr y ffordd, yn aml ddim yn cael mynediad at wasanaethau iechyd, lles ac addysg digonol. Sefydlodd rhaglen Cymru y prosiect 'Cymryd Rhan' ar ddechrau'r 80au er mwyn ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a wnaeth, yn y pen draw, arwain at ffurfio rhaglen 'Teithio Ymlaen' yn 2010 i gefnogi plant a phobl ifanc sydd yn Sipsiwn a Theithwyr ar draws Cymru i gael mynediad at eu hawliau.

Ein Prosiectau Cymunedol a'n gwaith rhaglen

Mae Achub y Plant bob amser wedi credu mewn gwrando ar anghenion cymuned ac annog a chefnogi pobl leol i weithredu er mwyn defnyddio a datblygu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a hefyd i ddod â phartneriaid ac asiantaethau lleol ynghyd i gyflawni'r angen hwnnw yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Prosiect Cwm Cynon

Yn y 1990au, canolbwyntiodd ein gwaith ar ystadau tai Perthcelyn a Fernhill. Cafodd ystâd Perthcelyn, gyda 331 o gartrefi ar gopa'r mynydd, ei henwi 'Y Ddinas Goll' yn lleol oherwydd yr ymdeimlad o ynysu a dieithrio o wasanaethau lleol. Cynhaliodd Achub y Plant sesiynau 'galw heibio' yn y Ganolfan Gymunedol ar yr ystâd gan roi'r cymorth oedd ei angen ar rieni ac ardal i chwarae a defnyddio teganau addysgiadol a llyfrau ar gyfer eu plant.

Defnyddiodd prosiect Fernhill, oedd yn cefnogi ystâd o bron 500 o

fflatiau, wedi ei lleoli rhwng Aberpennar ac Abercwmboi, ddwy fflat gyfagos uwchlaw'r Ganolfan Gymunedol i ddarparu sesiynau galw heibio a chyfleusterau meithrinfa ar gyfer teuluoedd. Roedd Prosiect Ieuenctid Fernhill yn 2002 yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd i bobl ifanc oedd yn byw yn un o'r ardaloedd yng Nghymru lle'r oedd diweithdra ieuenctid ar ei uchaf. Roedd yn cael ei redeg yn bennaf gan y bobl ifanc eu hunain, oedd yn gyfrifol am drefnu hyfforddiant, paratoi cylchlythyr misol, rhedeg gwe gaffi fel lle i blant fynd i wneud eu gwaith cartref a chynllunio digwyddiadau codi arian ar gyfer teithiau addysgiadol a hamdden.

Prosiect Powys

Nododd astudiaeth o anghenion gofal plant teuluoedd oedd yn byw ym Mhowys ym 1992 ddiffyg trafnidiaeth, grwpiau chwarae a gofalwyr plant fel rhwystrau. Argymhellodd yr adroddiad 'Swings and Roundabouts' ffyrdd o wella mynediad at wasanaethau a'u gwneud yn fwy hygyrch. Ariannwyd Llyfrgell Teganau pan deithiodd bws i'r ardaloedd mwyaf pellennig i ddarparu teganau addysgiadol a llyfrau i deuluoedd a gweithiodd Achub y Plant yn agos hefyd gyda Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas Grŵp Chwarae Cyn-ysgol Powys i'w helpu i ymestyn eu gwasanaethau.

Prosiectau eraill

Yn y 1990au, gweithiodd yr elusen ar brosiectau cymunedol yng ngogledd Cymru i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Wrecsam a Chonwy a Phrosiect Llaneirwg yng Nghaerdydd oedd yn gweithio gyda thrigolion lleol i ddatblygu adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ardal. Nod prosiect ymchwil i brofiadau teuluoedd yn y gymuned Somali yng Nghaerdydd oedd eu helpu i gael y gwasanaethau oedd eu hangen arnynt, a gwnaed prosiectau hefyd mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod Cymru ar drais domestig ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol De Morgannwg i greu cynllun gofal plant.

Ein gwaith polisi, ymgyrchu ac eirioli

Mae ein gwaith yng Nghymru ar ôl 2000 yn parhau i ganolbwyntio ar Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cefnogi plant a phobl ifanc yn eu hawl i gael llais mewn penderfyniadau am eu dyfodol. Gweithiodd prosiectau fel yr Uned Gyfranogiad, Turn on the Rights, Criw Gilfach, Grŵp Eiriolaeth Ceiswyr Lloches Ifanc, Yn Fy Iard Gefn a Llysgenhadon Ifanc mewn cymunedau ar draws Cymru. Cododd cyfranogwyr y prosiectau hyn faterion sydd yn bwysig i blant a phobl ifanc, yn cynnwys cael

Cyflog Byw, teimlo'n ddiogel yn eich cymuned a chodi ymwybyddiaeth o effaith tlodi ar fywydau ifanc.

Yr Uned Gyfranogaeth (2004 – 2013)

Sefydlwyd yr Uned yn 2004 i hyrwyddo hawliau pob plentyn a pherson ifanc, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed i gael llais a chael dewis. Gweithiodd y tîm ar amrywiaeth o brosiectau gyda phlant a phobl ifanc gan eu cynnwys mewn gwaith ymchwil, polisi ac ymgyrchu a gwneud datblygiadau mawr tuag at weithredu Erthygl 12 o CCUHP yn gwneud polisïau yng Nghymru. Roedd y prosiectau yn cynnwys datblygu Safonau Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru gyda'r Ddraig Ffynci (Cynulliad Ieuenctid Cymru) a lansio nod barcud Cenedlaethol yn 2010 i ddatblygu timau o Arolygwyr Ifanc ar draws Cymru i asesu'r ffordd y mae sefydliadau yn cynnwys hawliau plant yn eu busnes o ddydd i ddydd. Cydnabu'r Uned hefyd fod pobl ifanc yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain a chyhoeddwyd adroddiadau. Ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd yr adroddiad Llais Bach, Stori Fawr ar dlodi ac addysg gan grŵp o bobl ifanc o gymoedd de Cymru oedd yn profi tlodi eu hunain. Cafodd ei lansio mwn digwyddiad yn y Senedd ym mis Chwefror 2013 a chafodd ymateb gwych yn y cyfryngau.

Grŵp Eiriolaeth Ceiswyr Lloches Ifanc

Rhwng 2006 a 2008, cynhaliwyd prosiect llwyddiannus oedd yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc oedd yn byw yn Ne Cymru i fod yn ymgyrchwyr ifanc. Roeddent yn llwyddiannus yn ymgyrchu dros sawl mater oedd yn effeithio ar eu bywydau bob dydd, yn canolbwyntio ar addysg yn aml. Gwahoddodd Cystadleuaeth Gelf Wythnos Ffoaduriaid Cymru, a ariannwyd gan Achub y Plant yng Nghymru, bobl ifanc ar draws Cymru i ddylunio delwedd oedd yn cynrychioli materion ffoaduriaid ac yn adlewyrchu'r ffyrdd y gall pobl a chymunedau gwahanol ddod ynghyd mewn ffordd gadarnhaol.

Yn Fy Iard Gefn

Nod y prosiect hwn oedd cefnogi plant a phobl ifanc i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi plant yn eu cymunedau lleol. Mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd yn ystod 2011, trafododd y plant destunau fel addysg, tai, iechyd a'u hamgylchedd lleol a dweud beth fyddent yn hoffi ei newid. Dysgasant hefyd am hawliau plant. Gweithiwyd gyda dau grŵp o blant oed cynradd o ardaloedd Trelái a Sblot yng Nghaerdydd oedd eisiau annog pobl i gadw eu parciau lleol yn ddiogel ac yn lân er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel wrth chwarae ynddynt. Pwysleisiwyd hefyd bod y sŵn yr oedd oedolion yn ei wneud wrth adael y

tafarnau weithiau'n codi ofn arnynt neu'n amharu ar eu cwsg ac roeddent eisiau gofyn i bobl fod yn ystyriol o'u hanghenion. Dyluniodd y plant bosteri i'w harddangos mewn parciau cyhoeddus o amgylch Caerdydd ac mewn tafarnau ar draws De Cymru. Penderfynodd grŵp arall edrych ar dlodi plant a'r effaith ar iechyd a chrëwyd animeiddiad o'r enw 'Mannau Di-fwg' i ddangos bod smygu'n ddrwg i'ch iechyd, yn ddrud ac yn gallu achosi damweiniau yn y cartref.

Llysgenhadon Ifanc

Yn 2010, sefydlodd y DU brosiect Llysgenhadon Ifanc fel rhan o'n strategaeth gyfranogiad. Ymgysylltodd y prosiect yng Nghymru â phlant a phobl ifanc o gymunedau yng Nghaerdydd i roi llais i blant a theuluoedd sydd yn byw mewn tlodi ac i geisio newid safbwynt y cyhoedd mewn perthynas â thlodi plant. Trefnodd a chynhaliodd y Llysgenhadon Ifanc uwchgynhadledd genedlaethol tlodi plant yn Stadiwm Dinas Caerdydd gan dargedu gwneuthurwyr penderfyniadau o bob rhan o Gymru gyda syniadau ac atebion am y ffordd y gellid gwella bywydau a'u cymunedau lleol. Lansiwyd ymgyrch hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyflawni Cyflog Byw ar gyfer Cymru a chyflwynwyd deiseb wedi ei llofnodi gan gannoedd o gefnogwyr. O ganlyniad, addawodd awdurdodau lleol Caerdydd ac Abertawe i dalu cyflog byw i'w staff i gyd.

Eisteddfodau

Ers dros ugain mlynedd, mae rhaglen Cymru wedi nodi digwyddiadau, yn arbennig Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod yr Urdd, fel arddangosfa ragorol i ddangos ein gwaith i'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae wedi rhoi llwyfan i ni ymgysylltu â phobl ifanc yn ein hymgyrchoedd rhyngwladol a domestig yn amrywio o greu barcutiaid i blant yn Afghanistan i sôn am ymgyrch y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Roedd Richard Powell yn Gyfarwyddwr y Rhaglen yng Nghymru rhwng 1998 – 2006. Llun: Achub y Plant

Prosiect Llysgenhadon Ifanc/Achub y Plant

Nod barcud Cenedlaethol yr Uned Gyfranogaeth/Achub y Plant

Grym Dweud/Achub y Plant

Ein stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, 2018.
Llun: Achub y Plant

Pennod 4
Llais ein gwirfoddolwyr

Nid oes angen unrhyw gyflwyniad ar ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr yng Nghymru. Bob tro maent yn cyfrannu arian, yn gwirfoddoli eu hamser neu'n ymgyrchu dros newid, maent yn trawsnewid bywydau miliynau o blant trwy helpu i ariannu ein gwaith yn fyd-eang ac yma ar lawr gwlad yng Nghymru.

Ein canghennau gwych

Ers y 1950au cynnar, mae grwpiau o wirfoddolwyr, a elwir yn ganghennau, wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i drefnu digwyddiadau codi arian yn eu cymunedau lleol ac ar unrhyw adeg, roedd dros 20 o ganghennau ar hyd a lled Cymru. Yn anochel, mae'r nifer wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar oherwydd y newidiadau cymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol yn ein cymdeithas a'r ffordd y mae pobl yn dewis cyfrannu arian. Yng Nghymru, mae wyth cangen ar hyn o bryd gydag Aberdâr, Port Talbot, Abertawe a Chaerffili wedi bod yn weithredol ers dros drigain mlynedd. Mae canghennau Ynys Môn, Penarth, Dinbych-y-pysgod a Chaerdydd hefyd yn gweithio'n ddiflino drwy'r flwyddyn ac mae'n galonogol bod canghennau newydd hefyd yn dod i'r amlwg gyda changen Cinio Llenyddol newydd Abertawe wedi cael ei sefydlu i nodi'r canmlwyddiant ac i ddathlu ac annog sgiliau creadigol plant.

Menywod yng Nghymru

Cynhaliwyd Cinio cyntaf Menywod yng Nghymru ym 1992. Mae dros 400 o fenywod wedi mynychu'r cinio bob blwyddyn ers y dechrau, ac mae'n dal i fynd heddiw, gan godi miloedd o bunnau ar gyfer ein gwaith yng Nghymru.

Codi Llais

Mae gwirfoddolwyr sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect 'Codi Llais' dros y blynyddoedd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd yr elusen a'i hapeliadau ymateb brys trwy gyflwyno sgyrsiau pwerus i ysgolion, busnesau, clybiau, prifysgolion, cymdeithasau, grwpiau ffydd a digwyddiadau wedi eu trefnu.

Cymorth cyhoeddus a chorfforaethol

Mae'r cyhoedd yng Nghymru bob amser wedi bod yn hael wrth gyfrannu at apeliadau brys neu godi arian ar gyfer ein hymgyrchoedd codi arian blaenllaw fel Diwrnod Siwmper Nadolig, Teithiau Cerdded Mwdlyd Peppa Pinc a Diwrnod y Den. Mae teuluoedd, ysgolion, busnesau, artistiaid a chefnogwyr proffil uchel bob amser yn greadigol gyda'u cefnogaeth ac rydym wedi gweld cŵn, cathod, defaid a cheffylau yn gwisgo siwmperi gwallgof dros yr achos a gwnaethom lwyddo i droi traethau Cymru yn Nadoligaidd yn 2018.

Dros y blynyddoedd, rydym hefyd wedi bod yn ffodus i gael ein dewis fel Elusen y Flwyddyn gan gorfforaethau a sefydliadau amrywiol. Yn 2008, dewiswyd rhaglen Cymru fel Elusen y Flwyddyn gan Faer Caerffili ac yn 2011, cafodd dros fil o flychau yn cynnwys dillad fel crysau polo, sgertiau, festiau a sanau eu dosbarthu i ysgol yng Nghaerdydd gan Morrisons, un o'n partneriaid corfforaethol wnaeth ein helpu i gynnal ein prosiectau Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd (FAST) yng Nghymru.

Mae'r camau anhygoel a gymerwyd i godi arian ar gyfer ein hachos hefyd wedi cynnwys 'Sodlau'n Siarad' sef apêl a lansiwyd gan Ferched y Wawr, Achub y Plant ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2011. Gwerthwyd bron 3000 o esgidiau a gyfrannwyd gan aelodau Merched y Wawr a'u cyfeillion ar stondin Achub y Plant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam a chafodd esgidiau a gyfrannwyd gan enwau blaenllaw yng Nghymru fel Cerys Matthews, Alex Jones, y ferch dywydd Siân Lloyd, y cyflwynwyr teledu Angharad Mair a Heledd Cynwal, awduron, artistiaid a gwleidyddion, eu gwerthu mewn ocsiwn yn ystod yr wythnos. Cododd y bartneriaeth dros £10,000 i gefnogi ymgyrch yr elusen 'Ni Aned yr Un Plentyn i Farw' a'u prosiectau yng Nghymru.

Ein Llysgenhadon

Mae'r gefnogaeth anhygoel yr ydym wedi ei chael gan ein llysgenhadon a chefnogwyr proffil uchel wedi bod yn werthfawr iawn yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chodi arian i ariannu ein prosiectau ar lawr gwlad. Rydym yn diolch o galon iddynt am eu hymrwymiad parhaus i blant, p'un ai eu bod wedi cefnogi ein gwaith brys ac argyfwng, ymgyrchoedd lleol neu

ddigwyddiadau codi arian allweddol fel y Diwrnod Siwmper Nadolig, ein helpu gyda'n gwaith CC neu fynychu un o'n digwyddiadau neu ganu nerth eu pennau yn ein cyngherddau. Mae rhai o'r uchafbwyntiau yn cynnwys Llysgennad Achub y Plant, yr actor o Hollywood a Chymru, Luke Evans, yn ymweld ag ysgol ym Merthyr i weld dros ei hun sut mae ein rhaglen ymgysylltu rhieni, FAST, wedi helpu teuluoedd. I lansio ein dathliadau canmlwyddiant yng Nghymru, cododd ein llysgenhadon a'r cantorion opera Gwyn Hughes Jones a Stacey Wheeler y to yng Nghadeirlan Bangor mewn cyngerdd hudolus a chofiadwy.

Ein siopau

Rydym yn dibynnu ar ewyllys da, caredigrwydd, gwaith caled ac arbenigedd manwerthu'r staff a'r gwirfoddolwyr sydd yn rhedeg ein siopau ac ar hyn o bryd, mae gennym siopau yn Aberystwyth, yr Wyddgrug a Machynlleth. Yn ogystal â gallu dod o hyd i rai eitemau dylunwyr ymysg y cyfraniadau a'r bargeinion, mae'r siopau hefyd yn ganolbwynt i'r gymuned leol gyda gwirfoddolwyr yn trefnu grwpiau crefft a digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen a'i hymgyrchoedd.

"PAM RYDYM YN GWNEUD HYN…."

Valeda May Rees

Byddai Mrs Valeda Rees, neu Val i bawb, wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed fis Medi 2019, yr un flwyddyn ag Achub y Plant, oedd mor annwyl iddi. Roedd hi yn un o aelodau cyntaf cangen Aberdâr, a sefydlwyd ym 1954 - un o ganghennau hynaf y DU. Gwirfoddolodd am bron saith deg o flynyddoedd yn casglu ar y strydoedd, o amgylch yr ystadau ac yn sefyll o flaen ffatrïoedd a'r sinema a'r siopau lleol, boed law neu hindda. Cafodd Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) ym 1991 am ei gwasanaethau gwirfoddoli.

Mewn cyfweliad arbennig y gwnaethom lwyddo i ffilmio gyda hi ym mis Tachwedd 2018 cyn ei marwolaeth yng ngwanwyn 2019, dywedodd: *"Pan wnes i ddechrau casglu, hanner ceiniogau, ceiniogau a chwecheiniogau oedd yn cael eu rhoi – ac os byddai rhywun yn rhoi swllt, roeddech yn gwybod eich bod wedi gwneud diwrnod da o waith."* Pan ofynnwyd iddi pam roedd Achub y Plant mor agos at ei chalon, roedd ei hateb yn dweud cyfrolau: *"Rwyf wedi byw'r peth ac wedi cael modd i fyw."*

Olive Midha

Yn 2000, cafodd Mrs Olive Midha, aelod hirsefydlog o gangen Abertawe ers 1959, MBE am ei gwaith diflino gydag Achub y Plant, yn gwasanaethu fel cadeirydd y gangen ac ymddiriedolwr y rhiant-sefydliad. Mae'n dal yn aelod ffyddlon a gweithgar ac mae'r elusen yn agos iawn at ei chalon.

"Mae gennyf atgofion melys iawn o godi arian, ond rwy'n credu mai'r digwyddiad yr wyf yn ei gofio orau yw'r adeg y gwnaethom wahodd yr actores leol bryd hynny, Catherine Zeta Jones, am ginio ond ni chafodd unrhyw beth i'w fwyta, dim ond gwydraid o ddŵr! Roedd yn rhan o'r 'Ymgyrch Colli Cinio' ym 1991, y syniad y byddai pobl yn colli cinio a rhoi cost eu cinio fel cyfraniad i Achub y Plant. Rwyf hefyd yn cofio'r parti pen-blwydd hyfryd a drefnwyd i ddathlu pen-blwydd Achub y Plant yn 75 oed ym 1994. Daethom ynghyd fel gwirfoddolwyr o amgylch goleudy'r Mwmbwls er mwyn cael cyhoeddusrwydd yn y South Wales Evening Post, a'r goleudy ei hun oedd y gannwyll ar y gacen. Gobeithio bydd Achub y Plant yn parhau am byth. Mae yna angen bob amser yn y byd yma."

Alison Wood

Mae'r gyn-athrawes Mrs Alison Wood wedi bod yn aelod o Gangen Ynys Môn ers dros chwarter canrif ac yn wirfoddolwr 'Codi Llais'. Sefydlwyd y gangen ym 1991 ac mae ei haelodau wedi codi cannoedd o bunnau yn lleol trwy drefnu ocsiynau blynyddol, ffeiriau crefftau ac annog pobl a busnesau lleol i gymryd rhan yn y Diwrnod Siwmper Nadolig bob blwyddyn. Yn 2017, gwerthodd y gangen fagiau llaw ac ategolion ar eu stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn a pherswadio Siôn Corn i ymweld ar gefn tractor ar ddiwrnod chwilboeth o haf i godi ymwybyddiaeth am Ddiwrnod Siwmper Nadolig!

Cefais fy mherswadio i fynychu cyfarfod Achub y Plant gan fy chwaer yng nghyfraith a chefais fy mhlesio gymaint gan agwedd o allu gwneud yr elusen a'r hwyl yr oedd pobl yn ei gael yn gwirfoddoli fy mod wedi aros.

Roeddwn yn ddigon lwcus i allu mynd allan gyda phedwar arall i Rwanda yn 2016 i weld gwaith rhaglen yr elusen ac roedd pob eiliad o'r wythnos honno yn fythgofiadwy. Roedd yn gwneud i mi deimlo'n falch iawn o fod yn rhan o'r elusen a gallu

gweld canlyniadau'r holl waith codi arian yr ydym yn ei wneud a phroffesiynoldeb y bobl sy'n cyflawni'r gwaith yn ymwneud ag addysg, hawliau plant ac iechyd ar lawr gwlad.

Mae'n eithriadol o bwysig i ni fel cangen bod Achub y Plant yn gweithio yng Nghymru, plant y byd hwn ydyn nhw hefyd. Mae yna ardaloedd o amddifadedd gwirioneddol ac fel rhan o'n hymdrechion codi arian, rydym yn sicrhau bod rhywfaint o'r arian hwnnw'n cael ei glustnodi bob blwyddyn i gefnogi'r gwaith sydd yn digwydd ar lawr gwlad yma yng Nghymru.

Mae pobl Ynys Môn yn bobl hael iawn a phob blwyddyn, rydym yn casglu mewn tafarnau ac yn llwyddo i godi cannoedd o bunnau mewn oriau yn unig ac mae pobl yn rhuthro atom i wthio arian i mewn i'r bwcedi. Mae Porthaethwy i gyd – siopau a busnesau lleol, trigolion ac aelodau cast Rownd a Rownd sy'n cael ei ffilmio yn y pentref – yn gefnogol iawn o Ddiwrnod Siwmper Nadolig bob blwyddyn. Mae'n gymaint o hwyl gweithio i Achub y Plant ac mae ein pwyllgor i gyd yn tynnu mlaen, rydym i gyd yn gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd ac yn mwynhau cwmni ein gilydd.

John Roberts

Mae Mr John Roberts o Laneurgain yn Sir y Fflint wedi bod yn gwirfoddoli ers 2007. Mae'n Wirfoddolwr 'Codi Llais' a hefyd yn trefnu ac yn cefnogi pobl eraill sydd yn codi arian yn lleol yng ngogledd Cymru. Mae hefyd yn gweithio yn siop Achub y Plant yr Wyddgrug.

Mae cymaint o adegau cofiadwy ond mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn 2011, pan wnaethom werthu bron 3,000 o barau o esgidiau ar stondin Achub y Plant, mewn partneriaeth â Merched y Wawr, yn aros yn y cof. Y flwyddyn flaenorol yn 2010, cefais y fraint o allu gweld drosof fy hun y gwaith y mae'r elusen yn ei wneud yn ystod ymweliad tramor â Mozambique.

Wrth drefnu digwyddiadau codi arian, rwy'n credu mai'r cam pwysig cyntaf yw rhoi gwybod i bobl beth mae Achub y Plant yn ei wneud ac rwy'n gwneud cryn dipyn o sgyrsiau 'Codi Llais', gan fynd o gwmpas grwpiau ac ysgolion amrywiol. Rwy'n credu unwaith mae pobl yn deall yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r effaith yr ydym yn ei chael, mae'r gefnogaeth yn dod yn hawdd.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio yng Nghymru am mai dyma un o'r cwestiynau safonol a ofynnir i chi pan fyddwch yn mynd allan i siarad â grwpiau ac yn codi arian: beth ydych chi'n ei wneud i helpu plant sydd yn byw yma yng Nghymru?

Mae Achub y Plant wedi dod yn rhan fawr o'm bywyd. Bron nad oes diwrnod yn mynd heibio pan nad wyf yn gwneud rhywbeth, waeth pa mor fach, i'r sefydliad.

Caroline Williams

Pan oedd yn byw ym Mhenarth, cafodd Mrs Caroline Williams ei hysbrydoli i sefydlu'r gangen yn 2005 yn dilyn y tswnami dinistriol yng Nghefnfor India ar 26 Rhagfyr 2004, a achosodd ddinistr sylweddol. Yn 2013, pan symudodd i fyw yn Ninbych-y-pysgod, aeth ati i sefydlu cangen newydd yn y dref glan môr.

Roedd yn ofnadwy clywed straeon plant a theuluoedd yn gorfod eistedd ar y to a gweld a chlywed y tonnau'n taro o'u hamgylch. Roeddwn yn teimlo bod yn rhaid i mi roi rhywbeth yn ôl a dechreuais y pwyllgor yn 2005 a phenderfynu trefnu cinio mawreddog ar 1 Gorffennaf 2005. O hynny ymlaen, aeth cangen Penarth o nerth i nerth yn trefnu digwyddiadau codi arian fel y digwyddiad 'swisho', ocsiwn addewidion a chiniawau ac rwy'n falch iawn bod y gangen yn dal yn gryf hyd heddiw.

Yna symudais yn ôl i'm tref enedigol, sef Dinbych-y-pysgod yn 2013 a dechreuais gangen yno gyda digwyddiad o'r enw 'Dweud Hanes Dinbych-y-pysgod'. Dechreuodd y peth am ein bod yn adnewyddu ein tŷ ac roedd yr holl adeiladwyr lleol yn dweud straeon wrthym a daethom o hyd i ddarnau o hanes lleol o amgylch ein tŷ. Rydym hefyd wedi cynnal cinio mawreddog yn ddiweddar a chinio i ddathlu cyfraniad y swffragetiaid ac rydym wedi cynnal cyngherddau amrywiol ac wedi gwahodd pob ysgol leol i ganu.

I Eglantyne Jebb, roedd y cyfan er mwyn bwydo plant oedd yn newynu ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a sicrhau bod gan bob plentyn hawliau. Heddiw, mae'r elusen hefyd yn ymwneud â rhoi dechrau iach ac addysg ac uchelgais mewn bywyd i blant.

Shirley Fleming

Mae Mrs Shirley Fleming wedi bod yn gwirfoddoli am fwy na thrigain mlynedd ac mae'n Gyn-gadeirydd ac yn dal yn aelod gweithgar o gangen Aberdâr ac wedi derbyn Gwobr y Dywysoges Anne am ei gwaith.

Mae'r elusen yn agos iawn at fy nghalon ac mae gennyf lawer o atgofion melys, yn amrywio o ddawnsio yn neuadd y farchnad a sgwâr y farchnad yn Aberdâr i drefnu'r cinio mawreddog a gynhaliwyd yng Nghastell Cyfarthfa i ddathlu pen-blwydd Achub y Plant yn 75 oed ym 1994.

Gwnaethom y bwffe ein hunain a gweithiodd pob aelod o'r pwyllgor tan yr oriau mân y noson gynt, yn glanhau llysiau, gwneud sawsiau, potsio eog a rhostio cyw iâr. Daethom i gyd â'n llestri gorau i ddal y bwyd ac rwy'n cofio defnyddio darnau gwerthfawr iawn o oes Fictoria, yn cynnwys dysgl fawr ar gyfer dal gŵydd. Mae'n anodd dychmygu sut y gwnaethom hyn ond fe wnaethom ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Roeddwn yn falch iawn hefyd o fod yn gysylltiedig â phwyllgor Menywod yng Nghymru am flynyddoedd lawer.

Pam Muirhead

Mae Dr Pam Muirhead yn wirfoddolwr hirsefydlog i'r elusen, wedi gwasanaethu am fwy na deugain mlynedd ac, ar hyn o bryd, mae'n aelod o Gangen Abertawe a sylfaenydd a chadeirydd pwyllgor Cinio Llenyddol Abertawe, sydd newydd ei sefydlu. Mae hefyd yn wirfoddolwr 'Codi Llais' ac yn eistedd ar Fwrdd Gwirfoddoli'r DU ac wedi chwarae rôl hanfodol yn natblygiad digwyddiad codi arian blynyddol blaenllaw Achub y Plant, sef Diwrnod Siwmper Nadolig. Mae hefyd yn aelod blaenorol o bwyllgor Menywod yng Nghymru.

Fel un o'r Geidiaid yn fy arddegau, gwirfoddolais mewn cartref plant lleol a gweld yn uniongyrchol sut fywyd oedd gan blant mewn gofal. Gwnaeth y profiad hwn argraff fawr arnaf. Fel menyw ifanc, treuliais un mlynedd ar ddeg fel athrawes ysgol uwchradd a gweld eto y ffordd y gall amddifadedd effeithio ar fywydau plant. Daeth yn amlwg i mi nad oes gan blant ddewis; ble maent yn cael eu geni nac i bwy. Nid oes ganddynt lawer o reolaeth dros eu bywydau. Mae gan blant hawliau ac roeddwn eisiau brwydro dros yr hawliau hyn ar eu rhan. Roeddwn yn

benderfynol y byddwn yn gwneud fy ngorau i'w helpu.

Ym 1989, fel rhan o ben-blwydd yr elusen yn 70 oed, trefnodd cangen Abertawe barti hyfryd i blant oedd yn byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe. Cynhaliodd siop Children's World ym Mharc Tawe barti a darparu bwyd, teganau a nwyddau ar gyfer pob plentyn. Darparodd Trafnidiaeth De Cymru y bysiau. Cafodd y plant hwyl yn cael eu diddanu gan Kevin y Clown ac roedd y plant wrth eu boddau pan alwodd Paul Thorburn, cyn-gapten rygbi rhyngwladol Cymru, heibio. Cafodd pawb amser gwych.

Rwyf hefyd wedi bod wrth fy modd yn ymweld ag ysgolion a grwpiau amrywiol fel gwirfoddolwr 'Codi Llais' ac yn ymgyrchu ar ymgyrchoedd rhyngwladol a domestig. Mae'n brofiad cwbl gwerth chweil sy'n gwneud i mi deimlo bod fy angen i. Mae'n rhoi'r ysgogiad i mi barhau i geisio gwneud gwahaniaeth i fywydau plant.

Tina Leahy

Mae Mrs Tina Leahy, cyn-athrawes ysgol gynradd yn Townhill, wedi bod yn aelod o gangen Abertawe ers 46 o flynyddoedd a hi yw'r cadeirydd presennol.

Rwy'n credu, os oes gennych blant eich hun, eich bod yn sylweddoli beth sydd gennych mewn cymhariaeth. Gwelsom luniau o blant yn dioddef bryd hynny mewn gwledydd fel Ethiopia fel yr ydym yn dal i wneud heddiw yn Syria ac yn Yemen ac ar draws y byd – ac mae'n gwneud i chi fod eisiau gwneud rhywbeth i helpu. Rwy'n cofio dweud wrth fy ngŵr flynyddoedd lawer yn ôl, 'Mae angen Achub y Plant arnaf i gymaint ag y mae fy angen i' oherwydd mae wedi rhoi rhywbeth gwerth chweil i mi ei wneud.

Pan ymunais gyntaf, roeddem yn arfer cael cyfarfodydd yn Llundain unwaith y flwyddyn a byddai'r holl wirfoddolwyr ar draws y DU yn cyfarfod mewn mannau fel Neuadd Albert a byddai llefarwyr yno a byddech yno gyda'r holl bobl hyn o rannau eraill o'r wlad. Byddech yn dod allan ar dân ac yn meddwl, beth alla i ei wneud nesaf!

Yr hyn rwyf yn ymfalchïo fwyaf ynddo yw bod y gangen wedi llwyddo i godi arian i helpu i adeiladu ysgol yn nhreflan Kingsville yn Liberia, gan helpu plant i wireddu eu breuddwydion ac yn 2008, i nodi 50 mlwyddiant cangen Abertawe, cynhaliwyd

Cinio Mawreddog yn Stadiwm Liberty a chodwyd dros £20,000 tuag at adeiladu'r ysgol newydd.

Ann Jackson

Ar hyn o bryd, Mrs Ann Jackson yw cyd-gadeirydd Cangen Caerffili ynghyd â Mrs Dorothy (Dot) Phillips. Roedd mam Ann, Betty Addicts, yn flaenllaw iawn yn y gangen tan yr 80au, ynghyd â Haf Fussell oedd yno pan gafodd y gangen ei sefydlu ym 1962, ac mae ei merch, Liz Davidson, hefyd wedi bod yn aelod yno ers blynyddoedd lawer.

Mae Achub y Plant mwy na thebyg yn fy DNA, os yw yn eich teulu, rydych yn ei barhau. Cafwyd llawer o weithgareddau dros y blynyddoedd sydd yn aros yn y cof, ond un o'r adegau balchaf i'r gangen mwy na thebyg yw'r adeg pan wnaeth Anne Collins, cadeirydd y gangen a Maer Caerffili ar y pryd, arwain ymgyrch a gododd £16,000 yn 2008 i ariannu'r rhaglen beilot, Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd (FAST) yng Nghymru, gafodd ei rhedeg yn Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf." Aeth FAST ymlaen i gael ei rhedeg mewn ysgolion ar draws Cymru a llywiodd raglen ymgysylltu rhieni newydd sbon Achub y Plant, Teuluoedd yn Cysylltu.

I ardal fel Caerffili, nad yw'n gefnog iawn, rydym wedi cael cefnogaeth ragorol dros y blynyddoedd. Rydym wedi cynnal popeth o bartïon gardd yng Nghoedrhydyglyn i gyngerdd yn Eglwys y Santes Helen, nosweithiau Ffagots a Phys poblogaidd Haf i gwisiau, boreau coffi a hyd yn oed grwpiau gwau i greu blancedi ar gyfer babanod yn Affrica! Ar ôl yr holl flynyddoedd, byddwn yn dweud mai fy nymuniad canmlwyddiant i Achub y Plant yw dileu tlodi yn y DU, yn arbennig yng Nghymru. Gobeithio gallwn helpu'r genhadaeth honno rywfaint.

Cerris Lewis

Ymunodd Mrs Cerris Lewis, cadeirydd presennol cangen Port Talbot am ei bod wedi cael ei hysbrydoli gan y cymorth a'r gefnogaeth yr oedd yr elusen yn ei rhoi i blant agored i niwed ar draws y byd ac yma yng Nghymru. Sefydlwyd cangen Port Talbot ym 1953 gan y Maer, cynghorwyr lleol a phwysigion lleol ac mae'r uchafbwyntiau dros y blynyddoedd yn cynnwys y cyngerdd yn Neuadd Brangwyn yn Abertawe ym 1985 a fynychwyd gan EHB, y sioe ffasiynau ym 1980 a digwyddiadau i nodi pen-blwydd

Achub y Plant yn 75 oed, oedd yn cynnwys picnic a digwyddiad codi arian ym Mharc Margam.

Wrth edrych yn ôl dros yr holl flynyddoedd, fy hoff atgofion o godi arian i'r elusen yw digwyddiad Pen-blwydd Achub y Plant yn 75 oed a drefnwyd yn yr Orenfa ym Mharc Margam. Ein Siaradwr oedd yr Anrhydeddus Fonesig Shân Legge-Bourke a chodwyd dros £12,000.

Christine Stinchcombe-Brown

Mynychodd Mrs Christine Stinchcombe-Brown ei chyfarfod cyntaf o gangen Caerdydd ym 1979 pan gafodd wahoddiad gan y sylfaenydd, Mrs Chamberlin, a sefydlodd y gangen ar ddiwedd y 1940au. Daeth yn ysgrifennydd y gangen, cymerodd ran yn rhaglen 'Codi Llais' a gwirfoddolodd i'r elusen hyd at 2010 ac mae dal yn gefnogol iawn o'r gwaith.

Pan ymunais gyntaf, dim ond ychydig fisoedd oed oedd fy merch ac roedd angen ei bwydo yn ystod y cyfarfod! Roedd gan lawer ohonom blant ifanc a chawsant eu magu yn ein helpu gyda digwyddiadau codi arian ac aeth un o'm meibion ymlaen i wirfoddoli yn y ddwy siop yng Nghaerdydd am flynyddoedd lawer gan fod un yn arfer bod gyferbyn â'r castell ac un ar Heol Albany.

Roedd pawb yn tynnu mlaen yn dda a chawsom lawer o hwyl. Roedd boreau coffi rif y gwlith, stondinau rhoddion mewn ffeiriau, cyngherddau gyda chlochyddion Japaneaidd, Côr o Wlad yr Iâ, Tannau Taf a chorau lleol. Roedd un o'n haelodau, Dilys Smith, hyrwyddwr cardiau Nadolig Cymraeg a dwyieithog, yn aelod ymroddedig o'n cangen am amser hir. Creodd galendr dwyieithog un flwyddyn a hi roddodd yr enw 'Clecs' ar ein cylchlythyr Cymraeg.

Cawsom gyfarwyddyd hefyd gan apeliadau'r Pwyllgor Argyfyngau (DEC) i gasglu cyfraniadau ar fyr rybudd ac roeddwn yn cael anhawster yn dal pwysau'r bwced oherwydd haelioni'r cyhoedd!

Cawsom i gyd gyfle i gyfarfod ag EHB y Dywysoges Frenhinol pan ddaeth i agor y siop gyntaf yng Nghaerdydd ac roedd yn amlwg bod yr elusen yn agos iawn at ei chalon a'i bod yn gweithio'n galed dros yr achos. Fy nymuniad i'r canmlwyddiant yw y dylai pob plentyn yn y byd gael plentyndod diogel, iach, hapus a di-straen.

Jenny Ogwen

Mae'r cyn-gyflwynydd HTV Cymru ac S4C, Jenny Ogwen, wedi bod yn gysylltiedig ag Achub y Plant ers dros ugain mlynedd ac roedd yn aelod o Bwyllgor Menywod yng Nghymru am flynyddoedd lawer. Ar hyn o bryd mae'n llysgennad dros waith yr elusen yng Nghymru.

Roedd fy mam bob amser yn cefnogi Achub y Plant ac felly rwy'n teimlo fy mod yn parhau'r traddodiad ac rwy'n hynod falch o allu helpu i godi arian ac ymwybyddiaeth o waith yr elusen.

Gydag Achub y Plant, mae'n bwysig bod pobl yn gwybod bod miloedd o blant yn byw o'r llaw i'r genau yma a bod yr elusen yn gwneud gwaith ar lawr gwlad i'w helpu.

Nid oes gan rai plant ddigon o fwyd i'w fwyta, gwely iawn i gysgu ynddo na dillad cynnes i'w gwisgo yn y gaeaf ac yn yr oes hon, nid yw hynny'n iawn.

Gwyn Hughes Jones a Stacey Wheeler

Daeth y cantorion opera proffesiynol, Gwyn Hughes Jones a Stacey Wheeler, sydd yn ŵr a gwraig, yn Llysgenhadon i Achub y Plant yn 2012. Maent wedi perfformio mewn cyngherddau amrywiol i godi arian i'r elusen a chodwyd y to yng Nghadeirlan Bangor ar 18 Mai wrth lansio dathliadau'r canmlwyddiant ynghyd â'r artistiaid Annette Bryn Parri, Trio a Chôr Ysgol Gymuned Penisarwaun. Roedd y cyngerdd yn cynnwys perfformiad o'r gân 'Mae 'Na Obaith' a gyfansoddwyd i nodi'r achlysur gan Annette Bryn Parri a'i gŵr Gwyn Parri.

Gwyn Hughes Jones: *Mae'n rhan o gydwybod cymdeithasol person i fod eisiau cymaint o blant a phobl ifanc i gael y cyfle i dyfu i fyny yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Ac mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli ein cyfrifoldeb i fod yn rhan o'r ateb i wneud y byd hwn yn lle gwell iddynt fyw.*

Stacey Wheeler: *Rwyf wedi gweld y gwaith gwych y mae'r elusen yn ei wneud yma yng Nghymru pan oeddwn yn gweithio i dîm Cymru fel Hyfforddwr Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd (FAST) ac roeddwn yn gallu gweld y gwaith rhagorol y mae'r elusen yn ei wneud i helpu teuluoedd a phlant yng Nghymru a chefais fy ysbrydoli. Mae'n hyfryd gallu defnyddio ein lleisiau fel cantorion a Llysgenhadon i godi arian ac ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y*

mae Achub y Plant yn eu rhoi i blant yma yng Nghymru a thramor i gyrraedd eu potensial.

Dr Pamela Muirhead, Samantha Cameron a'r gantores Duffy yn Stryd Downing yn lansio ymgyrch 'Ni Aned yr Un Plentyn i Farw' ar yr 28ain o Fawrth 2011. Roedd Pam yn un o ddau wirfoddolwr y gofynnwyd iddynt siarad yn y digwyddiad. Llun: Achub y Plant

Lluniau pwyllgor Menywod yng Nghymru gydag EHB Y Dywysoges Anne yn 2009 yn ystod cinio Menywod yng Nghymru i ddathlu pen-blwydd Achub y Plant yn 90 oed. Llun: Achub y Plant

Yn 2016 cafwyd cefnogaeth y gantores a'r gyflwynwraig Shan Cothi i'n hymgyrch 'Diwrnod Siwmper Nadolig', ac yn dilyn cais ar ei rhaglen ar Radio Cymru 'Bore Cothi' aeth y cyhoedd ati i weu siwmper arbennig i'w cheffyl, Caio.
Llun: Keith Morris/Achub y Plant

Ein Llysgenhadon yng Nghymru, Stacey Wheeler, Gwyn Hughes Jones, Heledd Cynwal a Jenny Ogwen yn cefnogi ymgyrch Diwrnod Siwmper Nadolig yn 2015.
Llun: Huw John/Achub y Plant

Yr actor o Gymru, Luke Evans, Llysgennad Achub y Plant a phartneriaeth fyd-eang Bulgari, yn ymweld ag un o brosiectau Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd (FAST) Achub y Plant yn Ysgol Gynradd Troedyrhiw ym Merthyr Tudful yng Nghymru yn 2015. Llun: Charlie Forgham-Bailey/Achub y Plant

Y miloedd o esgidiau a gasglwyd gan aelodau Merched y Wawr yn 2011 pan gawsom ein dewis fel eu helusen am y flwyddyn. Llun: Merched y Wawr

Cynllun Celf ar y Traeth Diwrnod Siwmper Nadolig, Rhagfyr 2017. Llun: Keith Morris/Achub y Plant

Mrs Valeda May Rees gyda Shirley Fleming o Gangen Aberdâr a Rhian Brewster ac Eurgain Haf o Achub y Plant ym mis Rhagfyr 2018. Llun: Achub y Plant

Yr actores Catherine Zeta Jones yn cymryd rhan yn Ymgyrch 'Colli Cinio' gyda chwaraewr rhyngwladol Cymru Bleddyn Bowen ym 1991. Mae Mrs Olive Midha yn y llun, yr ail ar y dde. Llun: Olive Midha

Mrs Alison Wood (ar y chwith) yng Ngwersyll MAHAMA yn Rwanda yn ystod ei hymweliad yn 2017. Llun: Achub y Plant

Dr Pam Muirhead (chwith), yr ysgrifennydd ar y pryd a Tina Leahy (dde), Cadeirydd Cangen Abertawe yn derbyn cyfraniad at Gronfa Achub y Plant gan Glwb Top Rank Abertawe a drefnodd Ras Falwns ym 1987. Llun: Pam Muirhead

Cyn-gyflwynydd y tywydd i HTV Cymru ac S4C a Llysgennad Achub y Plant yng Nghymru, Jenny Ogwen, yn codi ymwybyddiaeth o'n hymgyrch Go Tea-Potty gyda dyn tywydd y BBC, Derek Brockway, yn 2009. Llun: Huw John/Achub y Plant



Mrs Shirley Fleming, y 3ydd o'r chwith, mewn erthygl a gyhoeddwyd yn y Sunday Express ym 1994 gyda Mrs Valeda May Rees, yr ail o'r chwith.

Mr John Roberts yn gwirfoddoli yn siop Achub y Plant yn yr Wyddgrug.
Llun: John Roberts

Mrs Caroline Williams, sylfaenydd canghennau Penarth a Dinbych-y-pysgod yn derbyn gwobr gan Achub y Plant am ei gwasanaethau gwirfoddoli.

Ein Llysgenhadon yng Nghymru a'r cantorion opera, Gwyn Hughes Jones a'i wraig Stacey Wheeler yn lansio ein dathliadau canmlwyddiant yng Nghymru ar 18 Mai 2019 mewn cyngerdd yng Nghadeirlan Bangor gydag Ysgol Gymuned Penisarwaun. Llun: Iolo Penri/Achub y Plant

Pennod 5
Cymru yn eu geiriau nhw

Heddiw, mae dros 200,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi a thros draean ohonynt y tu ôl i'w cyfoedion mwy cefnog cyn iddynt ddechrau'r ysgol hyd yn oed. Mae llawer ohonynt byth yn dal i fyny. Nid ydynt byth yn cyrraedd eu llawn botensial am nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod eu blynyddoedd cynnar hanfodol.

Nawr, unwaith eto, yn yr 21ain ganrif, mae ein hymchwil a'n gwaith gyda theuluoedd yn darparu tystiolaeth ddiymwad mai ar ddechrau bywyd plentyn y gellir sicrhau eu llwyddiant yn y dyfodol. Trwy ffurfio partneriaethau gydag ysgolion, teuluoedd a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad, rydym yn helpu i gau'r bylchau o ran canlyniadau plant sy'n byw mewn tlodi o'u cymharu â'u cyfoedion mwy cefnog.

Mae tlodi'n effeithio ar bob rhan o fywyd plentyn. I lawer o deuluoedd sydd yn byw ar incwm isel, mae'n frwydr ddyddiol i dalu'r biliau, neu roi bwyd ar y bwrdd, sy'n ei wneud yn llawer mwy anodd cefnogi datblygiad eu plant gartref. Ni allant fforddio'r pethau y mae pob plentyn ifanc eu hangen – llyfrau a theganau, y gofod i chwarae a hyd yn oed pryd poeth neu wely.

Mae ein rhaglen, Blociau Bywyd, yn rhoi cymorth i helpu rhieni sy'n cael anhawster i gael yr hanfodion sydd eu hangen arnynt – fel gwely, llyfrau neu deganau. Mae hyn yn helpu teuluoedd i greu amgylchedd cartref cadarnhaol, gan leihau'r straen sydd yn gysylltiedig â thlodi a helpu i sicrhau y gall plant ddysgu a datblygu'n iach.

Stori Catherine

Mae Catherine, sydd yn 48 oed, yn fam sengl o gymuned deithiol Wyddelig. Symudodd i Gaerdydd bum mlynedd yn ôl ac mae

ganddi ddwy ferch fach. Maent yn byw mewn tŷ Teras bach mewn ardal o Gaerdydd sy'n cael ei hystyried ymysg un o ardaloedd mwyaf difreintiedig De Cymru. Fe'u hatgyfeiriwyd i raglen Blociau Bywyd Achub y Plant ym Mai 2019 gan y partner lleol ACE a chawsant oergell-rewgell a Phecyn Addysg Gynnar.

Torrodd oergell-rewgell Catherine ar ddechrau Mai a chafodd hyn effaith sylweddol ar y teulu. Roedd yn gorfod storio ei llaeth yn sinc y gegin. Roedd yn gorfod prynu bwyd bob yn ail ddiwrnod oedd yn cael effaith fawr ar ei hincwm. Mae Catherine fel arfer yn prynu cerdyn rhagdaledig misol ac yn siopa bob pythefnos. Mae hyn yn ei galluogi i reoli ei chyllideb a sicrhau bod bwyd i'r teulu bob amser. Heb rewgell, cynyddodd ei chostau byw yn sylweddol. Nid oedd yn gallu storio meddyginiaethau pwysig ar gyfer ei merched chwaith.

Daeth Catherine at Glwb Dysgu ACE Caerdydd a chafodd gymorth i wneud cais am grant Blociau Bywyd. O fewn wythnos, roedd wedi cael oergell-rewgell newydd a Phecyn Addysg Gynnar ar gyfer ei merched. *"Roedd y plant wrth eu boddau gyda'r pecyn Addysg Gynnar. Nid oeddent yn poeni a oedd ganddynt oergell-rewgell neu beidio. Roeddwn i'n falch iawn o gael oergell-rewgell newydd ond pan gawsant y pecyn, roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys,"* dywedodd Catherine. *"Maent wrth eu boddau'n chwarae gyda'r set tylwyth teg. Does dim gwahaniaeth am y bwlch oedran. Maent wrth eu bodd yn chwarae gyda hwnnw. Maent yn chwarae ag ef gyda'i gilydd."*

Heb gymorth Blociau Bywyd byddai Catherine wedi gorfod cael benthyciad costus i adnewyddu'r oergell-rewgell. *"Bendith Duw ar y bobl hynny am gyfrannu a gwneud hynny i deuluoedd fel fi a'm plant. Pan fyddwch yn y sefyllfa honno does dim ffordd allan. Mae dyledion a mwy o ddyledion."*

*Newidiwyd yr enwau i gadw pobl yn anhysbys

Mewn ysgolion, rydym yn dod â rhieni, plant ac athrawon ynghyd i sicrhau bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu potensial yn yr ysgol ac mewn bywyd. Mae ein rhaglen Cysylltu Teuluoedd yn cynnwys rhieni yn addysg eu plant, gan hybu eu sgiliau a rhoi'r hyder iddynt i helpu eu plant i ddysgu.

Stori Nina

Gan nad oedd Nina erioed wedi cymryd rhan mewn mentrau rhieni yn yr ysgol o'r blaen, roedd eisiau *"rhoi cynnig arni"* pan gafodd wahoddiad i gymryd rhan yn rhaglen Cysylltu Teuluoedd Achub y Plant mewn ysgol gynradd ym Mhort Talbot. Roedd ei mab, oedd yn flwydd ar y pryd, wrth ei fodd bod ei fam yn mynd i mewn i'r ysgol, yn arbennig yr amser un i un yr oeddent yn ei gael gyda'i gilydd – teimlad yr oedd hi'n ei rannu gan ei bod yn cyfaddef mai'r her fwyaf oedd cael amser unigol rheolaidd gyda'i phlant. *"Mae Cysylltu Teuluoedd wedi ein helpu i sicrhau ein bod yn cael amser arbennig. Rydym yn mynd trwy'r cardiau stori ac yn llunio straeon gyda'n gilydd. Rwyf hefyd wedi gallu sefydlu mwy o ddisgyblaeth gartref gyda'r plant i gyd, sydd yn gwneud pawb yn hapusach ac mae wedi arwain at lai o ddicter a ffiniau cliriach."*

Nid oedd Nina wedi sefydlu perthynas gyda'r ysgol o'r blaen, ond o ganlyniad i ymgysylltu â Cysylltu Teuluoedd, mae wedi gwneud ffrindiau agos gyda rhieni eraill yn ogystal â'r staff. Ei neges i rieni eraill sy'n ystyried cymryd rhan yn y rhaglen yw *"Ewch amdani! Mae'r cyfathrebu, yr amser un i un, y cymorth gan gyfoedion a'r cyfeillgarwch yn werthfawr iawn. Mae wedi gwneud i mi deimlo bod gennyf lawer mwy o reolaeth gartref a chyda fy nheulu. Roeddwn wrth fy modd!"*

Gweithio mewn partneriaeth

Mae ein rhaglenni cymunedol yn dod â gweithwyr iechyd, ysgolion, canolfannau plant a llywodraethau lleol ynghyd i sicrhau bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a'u bod yn tyfu i fyny mewn lle y gallant ymfalchïo ynddo. Rydym yn canolbwyntio ar waith mewn cymunedau allweddol ar draws y wlad, gan ddatblygu partneriaethau strategol sydd yn dangos ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth tuag at wella addysg gynnar plant sy'n cael eu magu mewn tlodi.

Gwaith polisi, ymgyrchu ac eiriolaeth

Dysgodd ein sylfaenydd ni mai weithiau, yr unig ffordd i greu newid gwirioneddol i blant yw gorfodi newid i'r wleidyddiaeth sydd yn cael dylanwad uniongyrchol ar eu bywydau. Cred Achub y Plant fod tlodi'n tresmasu ar hawliau plentyn felly rydym yn ymgyrchu i newid polisi a allai effeithio ar hyn.

Mae ein gwaith yng Nghymru bellach yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar flynyddoedd cyntaf hanfodol bywyd, o enedigaeth i wyth oed. Rydym ar hyn o bryd yn ymgyrchu dros ofal plant gwell yn y blynyddoedd

cynnar. Dyma ein ffocws oherwydd mae'r dystiolaeth yn glir iawn y gall addysg a gofal da yn y blynyddoedd cynnar newid bywydau plant sydd yn byw mewn tlodi.

Datgelodd ein hadroddiad, 'Darnau Bach. Darlun Mawr,' broblemau mawr gyda'r system gofal plant bresennol. Mae llawer o blant yn methu cael mynediad at ofal o ansawdd. Rydym yn galw am newid i'r system addysg a gofal yn ystod plentyndod cynnar er mwyn sicrhau ei bod yn gwasanaethu pob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir. Yn ystod ein hymgyrch, rydym wedi gofyn i wleidyddion, rhanddeiliaid, gwirfoddolwyr a rhieni beth, yn eu barn nhw, sydd ei angen yng Nghymru i gefnogi plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar hanfodol. Rydym hefyd wedi rhoi llais i blant a phobl ifanc o bob oed a chefndir i ddweud wrthym beth, yn eu barn nhw, sydd yn bwysig i bob plentyn allu tyfu i fyny yn hapus a chyflawni eu llawn botensial.

Ein yfory

Fel rhan o'n dathliadau canmlwyddiant, fe wnaethom ddychwelyd i'n gwreiddiau ym Merthyr i weithio ar brosiect celf gyda disgyblion o Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre ar Ystâd y Gurnos. Roedd y prosiect yn cynnwys gofyn i'r disgyblion greu cant o hunanbortreadau yn dangos yr hyn yr oeddent yn ei feddwl sydd ei angen ar bob plentyn i dyfu i fyny'n hapus yng Nghymru. Ysgrifennodd bob un eu sylwadau ar ddarn o jig-so i'n helpu i greu darlun ehangach o blentyndod cynnar ac i nodi pa ddarnau sydd ar goll o ran galluogi plant i ffynnu. Cafodd y gwaith celf ei arddangos mewn digwyddiad yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2019 lle galwodd Achub y Plant ar Lywodraeth Cymru i ddangos arweiniad gwleidyddol o ran torri'r cysylltiadau rhwng tlodi ac addysg yng Nghymru trwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a chadw llygad ar y darlun ehangach er mwyn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn colli tir.

Nid oes ffordd well felly o ddod â'r llyfr hwn i ben nag yng ngeiriau'r genhedlaeth sydd i ddod.

Asha Beynon

Mae Asha Beynon, myfyrwraig yn ysgol Uwchradd Pen-y-Dre yn cyfleu pwysigrwydd bod pob un ohonom yn cydweithio er budd plant heddiw er lles ein yfory. Dyma pam y bydd Achub y Plant yn parhau i ymateb a hyrwyddo hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc sydd yn byw yng Nghymru er mwyn sicrhau gostyngiad cynaliadwy yn nifer y plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi ac yn gweithio i leihau'r bwlch addysg gynnar rhwng plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi a'u cyfoedion.

Cafodd Achub y Plant ei sefydlu ym 1919 a dim ond ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, dechreuodd ar ei gwaith yn Nowlais yn rhedeg meithrinfeydd awyr agored ar gyfer teuluoedd glowyr. Rydym ni fel myfyrwyr wedi cymryd yr agwedd hon ar ein treftadaeth leol a'i defnyddio fel ysgogydd i greu darn o gelf yn nodi '100 mlynedd o waith'. Rydym wedi creu'r gwaith celf hwn i ddathlu'r gwaith ond hefyd gan gofio'r gwaith parhaus sydd angen ei wneud i'w cefnogi nhw a chenedlaethau o deuluoedd Merthyr Tudful i'r dyfodol.

Mae llawer ohonom ni fyfyrwyr wedi dod yn ymwybodol o'r gwaith y mae Achub y Plant wedi ei gyflawni ym Merthyr ond hefyd ar draws y byd. Roedd yn bwysig i ni fel pobl ifanc i archwilio a meddwl am hyn a gweld ein hunain fel rhan o gymuned fyd-eang. Yn aml, roeddem yn dysgu sut y gall ein plentyndod fod

mor debyg i blentyndod plant eraill ar draws y byd.

Rydym wedi defnyddio ein profiadau plentyndod ein hunain ac wedi meddwl beth sy'n gwneud plant yn hapus, beth sy'n gwneud iddynt ffynnu a beth yn eu barn nhw sydd ei angen ar bob plentyn er mwyn sicrhau plentyndod hapus ac iach. Trwy ymagwedd mor gadarnhaol, rwy'n credu ei fod wedi gwneud i ni feddwl beth rydym ei eisiau ar gyfer ein bywydau, ein bywydau yn nes ymlaen a bywydau ein plant ein hunain.

Gall y jig-so a'r cysyniad ein bod i gyd yn ddarnau y gellir eu rhoi at ei gilydd ein helpu ni i gyd i weld y darlun cyflawn yn ystod hyn i gyd. Mae hyn wedi ein hannog i gydweithio er budd pob plentyn ar draws y byd.

Nod ein gwaith celf yw atgoffa oedolion eu bod nhw wedi bod yn blant ar un adeg – athrawon, gwleidyddion, gweithwyr cymdeithasol a'r rheiny sy'n gweithio i elusennau a sefydliadau plant. Os ydynt yn dymuno gwella bywydau pobl ifanc, mae'n rhaid iddynt unwaith eto wrando ar lais y plentyn y tu mewn iddynt.

Asha Beynon (rhes flaen), disgyblion a staff Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre, Merthyr gyda Louise Davies, Pennaeth Achub y Plant (blaen, dde) a Dawn Bowden, AC Merthyr a Rhymni (ail res ar y dde) yn nathliad canmlwyddiant Achub y Plant yn y Senedd fis Gorffennaf, 2019. Llun: Nick Treharne/Achub y Plant

Staff Achub y Plant Cymru gyda Jenny Ogwen, ein Llysgennad yn cymryd rhan yng nghynllun celf ar y traeth Diwrnod Siwmper Nadolig 2017.
Llun: Keith Morris/Achub y Plant

Staff Achub y Plant Cymru ac ELRHA yn cymryd rhan yn Niwrnod y Den 2016.
Llun: Achub y Plant

Darnau bach, darlun mawr.

Gan mlynedd yn ôl
gwelodd un bod diffyg yn y darlun.

Gwelodd gam, dagrau mam a boliau gwag.
Gwelodd ddwylo bychain yn aros am law

ac yn lle edrych draw
gwelodd ei chyfrifoldeb,
gwelodd ei rhan hi o'r ateb:
a gweithredodd un i ail-lunio'r darlun.

Ac yn eu tro daeth y darnau bach ynghyd;
yn jig-so o ofal tyner syth o'r crud.

Daeth datganiad ac adduned,
daeth lle i chwarae
daeth awyr agored
daeth llaeth a maeth
a chariad o bob cyfeiriad.

Hawl i ffynnu
a hawl i fwy na hynny.

Yn raddol daeth y darlun yn gliriach
y dagrau yn sychach
a'r boliau yn llawn.

Ond heddiw o hyd
mae'r jig-so yn fregus,
mae'r corneli'n bygwth plygu
y llun yn pylu
ac ambell i ddarn yn mynnu
mynd ar goll.

Mae'r cwbl yn ein gofal ni yn awr,
pob un darn bach, a'r darlun mawr.

Casia Wiliam, Mai 2019
Bardd Plant Cymru
2017-2019

Cyfeiriadau

Cyhoeddiadau

Clare Mulley, *The Woman Who Saved the Children, A Biography of Eglantyne Jebb Founder of Save the Children*, Cyhoeddiad Oneworld 2009

A history of ground-breaking ideas, demonstrated impact and integrated practice. Adroddiad gan Achub y Plant a gyhoeddwyd yn 2009

Rebecca Gill a Daryl Leeworthy, *Moral minefields: Save the Children Fund and the moral economies of nursery schooling in the South Wales coalfield in the 1930s*, Journal of Global Ethics, cyhoeddwyd ar-lein 29 Gorffennaf 2015.

R.E.Griffith, *Urdd Gobaith Cymru, Cyfrol 1. 1922-1945*, cyhoedwyd gan Gwmni Urdd Gobaith Cymru. 1af. 1971

Catherine Jones, *Eglantyne Jebb: Guardian Angel*, erthygl a gyhoeddwyd yn y Western Mail a Walesonline, 25 Ebrill, 2009

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd i Sefydlu pwyllgor "Cronfa Achub y Plant" ar gyfer Ardal Aberdâr, Dydd Iau 21 Ionawr, 1954

Gwaith yng Nghymru, papur Gwybodaeth Rhaglenni y DU ac Ewropeaidd, Achub y Plant, Hydref 1993

Achub y Plant, Gweithio yng Nghymru, taflen Achub y Plant, 1994

Achub y Plant, cofnodion cyfarfod Adran Codi Arian Swyddfa Cymru, dyddiad anhysbys.

Prosiect Cwm Cynon Cronfa Achub y Plant, papur Achub y Plant, cyhoeddwyd Awst 1993

Rhaglen waith bresennol yng Nghymru, Achub y Plant, Tachwedd 2001

Ymchwilwyr Ifanc, *Llais Bach Gweledigaeth Fawr*, Uned Gyfranogiad, 2013

Ena Kendall, *Shirley Fleming Cyfarthfa Castle: A champagne buffet and a string quartet raise the tone of a charity function*, Sunday Express, 24 Gorffennaf 1994

Abaldu Consulting, Louise Davies, Claire Telfer, Sara Drysdale a Catherine Rees, *Darnau Bach, Darlun Mawr, Manteisio ar Addysg Gynnar a Gofal Plant i Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yng Nghymru'n cael ei adael ar ôl*, adroddiad Achub y Plant y DU, 2018

Cyfweliadau

Yr Anrh. Fonesig Shân Legge-Bourke, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Medi 2018

Mr Richard Powell, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Hydref 2018

Mrs Valeda May Rees, cynhaliwyd gan Eurgain Haf a Rhian Brewster, Tachwedd 2018

Mrs Olive Midha, cynhaliwyd gan Rhian Brewster, Hydref 2018

Mrs Alison Wood, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Chwefror 2019

Mr John Roberts, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Chwefror 2019

Mrs Caroline Williams, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Tachwedd 2018

Mrs Shirley Fleming, cynhaliwyd gan Eurgain Haf a Rhian Brewster, Tachwedd 2018

Dr Pam Muirhead, cynhaliwyd gan Eurgain Haf a Rhian Brewster, Hydref 2018

Mrs Tina Leahy, cynhaliwyd gan Eurgain Haf a Rhian Brewster, Hydref 2018

Mrs Ann Jackson, cynhaliwyd gan Rhian Brewster, Mehefin 2019

Mrs Jenny Ogwen, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Tachwedd 2018

Gwyn Hughes Jones a Stacey Wheeler, cynhaliwyd gan Eurgain Haf a Rhian Brewster, Rhagfyr 2018

Mrs Christine Stinchcombe-Brown, cynhaliwyd gan Eurgain Haf, Mehefin 2019

Mrs Cerris Lewis, cynhaliwyd gan Lucy Potter, Mehefin 2019

Kevin Wood, gwirfoddolwr o Gangen Ynys Môn yn lansio Diwrnod Siwmper Nadolig ar faes Eisetddfod Genedlaethol Ynys Môn, Bodedern yn 2017. Llun: Iolo Penri/Achub y Plant